

2016 Rhif 864 (Cy. 220)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 a
Chefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa
Coryton, Caerdydd i Gyfnewidfa
Bridge Street, Pontypridd, Rhondda
Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau
Dros Dro) 2016

Gwnaed 1 Medi 2016

Yn dod i rym 5 Medi 2016

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (“y draffordd”) a Chefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o’r draffordd a’r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd a’r ffordd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Medi 2016 a’i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 a Chefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd i Gyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n cychwyn am 20:00 o’r gloch ar 5 Medi 2016 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darn o’r draffordd” (“*the length of the motorway*”) ac “y darnau o’r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw’r darnau hynny o’r draffordd a’r gefnffordd rhwng Cyfnewidfa Coryton yn Ninas a Sir Caerdydd a Chyfnwidfa Bridge Street, Pontypridd ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r draffordd a’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

Cymhwyso

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y’i dangosir gan arwyddion traffig.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

1 Medi 2016

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

Y darn cyfan o lôn benodedig ffordd ymadael tua'r gorllewin y draffordd wrth Gyffordd 32 (Coryton) sy'n arwain at yr A470 tua'r gogledd.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Glan-bad hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Bridge Street.

Y darn o gerbyttfordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Bridge Street hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Glan-bad.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Glyn-taf hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Bridge Street.

Y darn o gerbyttfordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Bridge Street hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Glyn-taf.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Nantgarw hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Glan-bad.

Y darn o gerbyttfordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Glan-bad hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Nantgarw.

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gogledd a thua'r de y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf.

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gogledd a thua'r de y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Nantgarw.

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gogledd a thua'r de y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Glan-bad.

Y darnau cyfan o ffordd ymadael tua'r gogledd a ffordd ymuno tua'r de y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Glyn-taf.

Y darnau cyfan o ffordd ymadael tua'r gogledd a ffordd ymuno tua'r de y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Broadway.

Y darnau cyfan o ffordd ymuno tua'r gogledd a ffordd ymadael tua'r de y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Bridge Street.